Estyn

estyn.gov.uk

# Effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir

Mai 2015



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **4**

**Argymhellion** **7**

**Rôl yr athro ymgynghorol** **8**

Cymorth a her 8
Dyrannu adnoddau 12
Gweithio gydag eraill 15
Rhannu arfer dda 17

**Rôl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol** **19**

Rheoli'r cyllid a dyrannu adnoddau 19
Monitro gwaith yr athrawon ymgynghorol 20
Datblygiad proffesiynol parhaus 21

**Atodiad 1:** Sail y dystiolaeth **26**

**Atodiad 2:** Trefniadau presennol ar gyfer cefnogi a herio lleoliadau nas cynhelir (Tachwedd 2014) **27**

**Atodiad 3:** Rhestr wirio ymweliadau athrawon ymgynghorol **28**

**Geirfa** **29**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** **29**

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2014-2015. Mae'r adroddiad yn archwilio effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir.[1] Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos arfer orau sy'n dangos effaith athrawon ymgynghorol. Mae tri atodiad yn cynnwys sail dystiolaeth fanwl ar gyfer yr adroddiad, trefniadau presennol ar gyfer cefnogi a herio lleoliadau nas cynhelir a rhestr wirio ar gyfer ymweliadau ymgynghorol â lleoliadau.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ymweliadau ag 14 o leoliadau a thystiolaeth o saith awdurdod lleol a'r holl gonsortia rhanbarthol. Mae'n ystyried tystiolaeth o arolygiadau Estyn o leoliadau nas cynhelir er 2010 hefyd.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, athrawon ymgynghorol a lleoliadau nas cynhelir. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i sefydliadau gwirfoddol sy'n cefnogi lleoliadau nas cynhelir, athrawon ymgynghorol Dechrau'n Deg a staff mewn ysgolion cynradd.

## Cefndir

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnig lle rhan-amser am ddim i bob plentyn tair oed mewn sefydliad addysg yn y tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.[2] Mae awdurdodau lleol yn cynnig y lleoedd hyn mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. Pan gyflwynir darpariaeth mewn lleoliadau nas cynhelir, darperir cyllid am 10 awr yr wythnos ar gyfer hyd at 38 wythnos y flwyddyn, fel arfer dros bum sesiwn yr wythnos. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyllid yn uniongyrchol i'r lleoliad ar gyfer pobl plentyn sy'n manteisio ar le a ariennir.

Nid yw pob awdurdod lleol yn ariannu lleoliadau nas cynhelir. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nid oes lleoedd a ariennir mewn lleoliadau nas cynhelir rhwng Medi a Rhagfyr. Mae awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn cynnig lle rhan-amser a ariennir mewn ysgol. Mae nifer y lleoliadau nas cynhelir ym mhob awdurdod lleol yn amrywio'n eang o gyn lleied â thri lle i gynifer â 75 lle.

Yn 2001, dywedodd adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Gosod y Sylfaen: Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant Teirblwydd':

*"Er mwyn cyflwyno'r safon ofynnol o fewnbwn addysgol a bodloni'r meincnodau yn fframwaith Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), 'Canlyniadau Dysgu Dymunol', argymhellir y dylid cyflogi athro/athrawes*

---

[1] Cylchoedd chwarae cofrestredig neu feithrinfeydd dydd preifat yw lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac mae awdurdodau'n eu hariannu i ddarparu addysg ran-amser ar gyfer plant tair oed ac weithiau pedair oed.

[2] Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (diwygio) (Cymru) 2005

*blynyddoedd cynnar cymwysedig i weithio ym mhob amgylchedd cymeradwy am 10% o'r wythnos. Dylid ystyried mai dyma leiafswm yr ymrwymiad amser sydd ei angen."*

Ar gyfer yr adroddiad hwn, cyfeirir at 'athro blynyddoedd cynnar cymwysedig' fel 'yr athro ymgynghorol'. Rôl yr athro ymgynghorol yw darparu cymorth ar gyfer addysgu a dysgu, cyngor ac arweiniad am arfer y Cyfnod Sylfaen, a herio'r lleoliad i wella deilliannau ar gyfer plant. Mae tua 60 o athrawon ymgynghorol yn cefnogi tua 660 o leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar a ariennir. Mae tua 290 o leoliadau yn rhai cyfrwng Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn lleoliadau yn dod o gefndir nad yw'n ymwneud ag addysgu, er eu bod yn brofiadol mewn gweithio gyda phlant. Mae llawer o ymarferwyr mewn lleoliadau yn meddu ar gymwysterau gofal plant perthnasol ac mae'n ofyniad bod arweinydd y lleoliad yn gymwys i o leiaf lefel 3 cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol (CGC).

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu Grant y Cyfnod Sylfaen i awdurdodau lleol er mwyn:

- cyflogi cynorthwywyr ystafell ddosbarth i weithio tuag at neu gyflawni cymarebau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng tair a saith oed
- cyflogi Swyddog Hyfforddiant a Chymorth y Cyfnod Sylfaen i reoli a chyflwyno rhaglenni hyfforddi i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn y lleoliadau a gynhelir a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir
- cyflwyno rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar Becyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen ac ymgorffori elfennau a nodwyd yn lleol
- darparu o leiaf 10% o amser athro cymwysedig ar gyfer pob lleoliad nas cynhelir i wella ansawdd y ddarpariaeth addysg yn y lleoliadau hynny

Tan yn ddiweddar, roedd awdurdodau lleol yn cyflogi pob un o'r athrawon ymgynghorol ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff lleoliadau. Mae cyflwyno consortia rhanbarthol wedi arwain at newid i drefniadau cyflogi athrawon ymgynghorol mewn lleiafrif o awdurdodau lleol. O'r 20 awdurdod lleol ledled Cymru sy'n ariannu lleoliadau nas cynhelir, mae 14 awdurdod wedi parhau i gyflogi athrawon ymgynghorol a darparu hyfforddiant ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Mewn chwe awdurdod lleol, mae un consortiwm yn cyflogi'r athrawon ymgynghorol ac yn cyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer lleoliadau erbyn hyn, er mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol o hyd am ansawdd y safonau a'r ddarpariaeth mewn lleoliadau nas cynhelir. Canfu tîm yr arolwg fod y darlun yn newid yn gyflym ac mae mwy o awdurdodau lleol yn ystyried y posibilrwydd i gomisiynu consortia rhanbarthol i ddarparu cymorth a her i leoliadau nas cynhelir. Mae'r trefniadau adeg yr arolwg wedi'u nodi yn atodiad 2.

Yn ogystal â chael cymorth gan awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol a'r athrawon ymgynghorol, mae llawer o leoliadau yn cysylltu â sefydliadau gwirfoddol, fel Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru (PPA Cymru), Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol (NDNA) neu Fudiad Meithrin. Maent yn defnyddio gwasanaethau'r asiantaethau hyn i fanteisio ar rai neu bob un o'r canlynol:

- yswiriant atebolrwydd cyhoeddus grŵp
- dogfennau polisi y gellir eu haddasu neu'u mabwysiadu

- cynrychiolaeth ar faterion yn ymwneud â sector y blynyddoedd cynnar ar lefel leol, sirol a chenedlaethol
- rhestru ar wefan y sefydliad
- nid oes cyngor ar hyfforddiant ar gael gan yr awdurdod lleol, fel cyngor ar gymorth cyntaf a hylendid bwyd
- cyngor ar sicrhau ansawdd darpariaeth cyn-ysgol
- cyfle i fynd ar gyrsiau hyfforddi Cymraeg
- mynediad at gynllun llaeth am ddim Llywodraeth Cymru
- cyngor ac arweiniad o'r brif swyddfa a chan dimau rhanbarthol
- cymorth â materion cyflogres (darperir yn aml am gost ychwanegol)
- tanysgrifiad am ddim i gylchgrawn y sefydliad

Mae sefydliadau gwirfoddol sy'n gysylltiedig â lleoliadau yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru, ac mae llawer o awdurdodau lleol yn eu hariannu i ddarparu gwasanaethau penodol hefyd.  Mewn gwahanol awdurdodau lleol, mae'r sefydliadau gwirfoddol yn darparu lefelau gwahanol o gymorth yn dibynnu ar faint o gyllid y maent yn ei gael.  Gallai hyn amrywio o gynnig ymweliadau â lleoliadau i fod ar gael dros y ffôn.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae rôl yr athro ymgynghorol yn y sector nas cynhelir wedi newid dros gyfnod. Ar y dechrau, roedd athrawon ymgynghorol yn modelu arfer dda yn bennaf. Erbyn hyn, mae athrawon ymgynghorol yn darparu mwy o gymorth ar gyfer rheoli a gweinyddu, ond llai ar gyfer addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mae trosiant uchel o staff yn y sector nas cynhelir ac mae angen mwy o gymorth ar lawer o leoliadau ar ffurf modelu arfer dda.

2 Mewn rhai lleoliadau nas cynhelir lle mae'r athro ymgynghorol yn modelu addysgu da yn rheolaidd, mae ymarferwyr yn fwy hyderus yn chwilio am ffyrdd o wella deilliannau ar gyfer plant ac yn barnu safonau plant. Mae modelu adrodd storïau neu sut i ennyn diddordeb plant mewn creu marciau yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan blant.

3 Nid yw lleiafrif o leoliadau yn cael digon o gyngor am sut i wella'r safonau a gyflawnir gan blant na sut i gyflwyno gweithgareddau mewn ffyrdd amrywiol a diddorol. Lleiafrif o athrawon ymgynghorol yn unig sy'n rhoi arweiniad ar weithgareddau i helpu plant mwy abl neu blant sy'n cael anawsterau. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae'r athro ymgynghorol yn darparu cymorth effeithiol o ran datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o agweddau ar y Cyfnod Sylfaen, fel gwneud defnydd gwell o ardaloedd awyr agored.

4 Pan fydd athrawon ymgynghorol yn canolbwyntio ar ansawdd rhyngweithio ymarferwyr gyda phlant, caiff hyn effaith sylweddol ar y safonau a gyflawnir gan blant.

5 Mewn llawer o leoliadau cyfrwng Saesneg, mae cymorth yr athro ymgynghorol wedi helpu i godi safonau plant yn y Gymraeg. Er enghraifft, maent yn gweithio gydag ymarferwyr yn gydwybodol i ddatblygu geirfa addas i'w defnyddio mewn arferion bob dydd ac yn annog defnyddio canu i ymgorffori patrymau iaith syml.

6 Mewn mwyafrif o ymweliadau athrawon ymgynghorol, mae gormod o bwyslais ar helpu'r lleoliad i lunio dogfennau polisi, fel cynllun datblygu neu adroddiad hunanarfarnu. Mae athrawon ymgynghorol yn dechrau darparu lefel well o her o ran y safonau a gyflawnir gan blant, ond mewn mwyafrif o leoliadau, maent yn canolbwyntio gormod o hyd at fiwrocratiaeth rheoli a chynllunio, a dim digon ar addysgu a dysgu.

7 Ledled Cymru, ceir llawer o wahanol fodelau cymorth gan yr athro ymgynghorol. Y model mwyaf llwyddiannus yw model lle mae lleoliadau'n cael y dyraniad llawn o ran amser athro ymgynghorol ar y safle, darperir hyfforddiant ychwanegol, a disgwylir i leoliadau fynychu isafswm o hyfforddiant bob blwyddyn.

8 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn dyrannu faint o amser a gaiff pob lleoliad yn unol â'u hasesiad o angen. Mae hyn yn golygu nad ydynt o reidrwydd yn cydymffurfio â gofynion Grant y Cyfnod Sylfaen i ddarparu cymorth athro cymwysedig am 10% o'r amser ar gyfer pob lleoliad. Mae llawer o leoliadau da yn cael llai na'u dyraniad ac nid ydynt yn cael digon o gymorth i fod yn rhagorol.

9 Mae bron pob lleoliad yn cael ymweliadau ychwanegol a chymorth cynyddol wedi i Estyn eu hysbysu am arolygiad. Dywed llawer o leoliadau eu bod yn colli ymweliadau wedi'u trefnu pan fydd arolygiad ar fin cael ei gynnal mewn lleoliad yn rhywle arall. Nid yw canolbwyntio amser athro ymgynghorol ar baratoi lleoliadau ar gyfer arolygiad yn ffordd dda o ddefnyddio amser ac nid yw'n darparu'r gwasanaeth gorau.

10 Mae'r graddau y caiff gwaith athrawon ymgynghorol ei fonitro yn amrywio ledled Cymru. Mewn llawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, mae rheolwyr llinell yn craffu ar nodiadau ymweliadau, yn arfarnu data arolygu ac o bryd i'w gilydd yn mynychu hyfforddiant a ddarperir gan yr athro ymgynghorol. Mae gan bron bob un o'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol weithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â chyflog ac amodau athrawon, ond ychydig iawn ohonynt sy'n arsylwi athrawon ymgynghorol yn gweithio mewn lleoliad. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cael gwybodaeth uniongyrchol berthnasol am effeithiolrwydd eu hathrawon ymgynghorol o ran cefnogi lleoliadau.

11 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn cynnal a gwella medrau ac arbenigedd eu hathrawon ymgynghorol yn briodol. Mewn rhai awdurdodau lleol, yn enwedig lle nad yw athrawon ymgynghorol yn gweithio mewn ysgolion hefyd, nid ydynt bob amser yn cael gwybodaeth am newidiadau sy'n effeithio ar y sector yn rheolaidd yn y ffordd y mae staff ysgol yn cael gwybodaeth felly.

12 Nid yw awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol bob amser yn gallu darparu hyfforddiant ym mhrif iaith lleoliad. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ne Cymru yn cynnig hyfforddiant yn Saesneg yn unig ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ac mae ymarferwyr nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg yn ei chael yn anodd dilyn a deall yr hyfforddiant yn llawn.

13 Mae heriau i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran amseru digwyddiadau hyfforddi fel bod ymarferwyr o bob lleoliad yn gallu mynychu. Mae lleoliadau yn aml yn ei chael yn anodd rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant am na allant ddarparu digon o staff llanw. Mae rhai awdurdodau lleol yn ymwybodol o hyn ac yn amrywio amser hyfforddi yn unol â hynny.

14 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae'r diffyg cydweithio agos rhwng yr athrawon ymgynghorol ac asiantaethau'r sector gwirfoddol yn golygu bod ymarferwyr weithiau'n cael cyngor anghyson. Mewn rhai achosion, mae bylchau pwysig yn y cyngor a'r cymorth a gaiff ymarferwyr, er enghraifft mewn perthynas â gweithdrefnau diogelu neu sut i gynorthwyo plant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

15 Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am fonitro'r cymorth a gaiff lleoliadau gan sefydliadau sector gwirfoddol, hyd yn oed pan fyddant yn talu am y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod lleol yn ansicr ynghylch ansawdd y cyngor a ddarperir neu p'un a yw'r cyngor ar amddiffyn plant, er enghraifft, yn gyfoes.

16 Mae'r ffordd y caiff arfer orau ei rhannu rhwng y sectorau ysgolion a lleoliadau nas cynhelir yn amrywio ar draws gwahanol awdurdodau lleol a chonsortia, ac nid yw bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd yn y naill sector na'r llall. Er enghraifft, mae ymarferwyr meithrin mewn ysgolion yn brofiadol mewn cynllunio camau nesaf plant, sy'n aml yn broblem i leoliadau, a gallent elwa ar rannu'r arfer hon. Yn yr un modd, mae ymarferwyr mewn lleoliadau yn aml yn gwneud defnydd effeithiol o weithgareddau, er enghraifft amser byrbryd, i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol plant, a gellid rhannu'r arfer dda hon yn ehangach gydag ysgolion.

17 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ariannu amser athrawon ymgynghorol o Grant y Cyfnod Sylfaen. Mae'r symiau gwahanol iawn o arian a ddyrennir yn golygu bod gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru o ran faint o gymorth a ddarperir. Mae rhai awdurdodau lleol yn ystyried datganoli rheoli Grant y Cyfnod Sylfaen i gonsortia, er bod y gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn ariannu lleoliadau, athrawon ymgynghorol a hyfforddiant yn rhwystro hyn. Wrth ddyrannu cyllid Grant y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn rhoi blaenoriaeth i fodloni cymarebau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer staff mewn ysgolion, wedi'i ddilyn gan ddarparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer ysgolion. O ganlyniad, nid yw mwyafrif o leoliadau yn cael y 10% a argymhellir o amser athrawon ymgynghorol, am nad oes digon o adnoddau ar ôl i ariannu hyn.

18 Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cynllunio'n systematig i sicrhau bod hawl plentyn i addysg a ariennir yn cael ei bodloni'r un mor dda mewn ysgolion a lleoliadau fel ei gilydd, oherwydd yr amrywioldeb yn y modd y maent yn defnyddio cymorth a chyllid ledled Cymru a rhwng y sectorau.

## Argymhellion

**Dylai athrawon ymgynghorol:**

A1 ddarparu lefel addas o her ar gyfer lleoliadau a sicrhau bod ymweliadau a hyfforddiant yn canolbwyntio ar wella safonau plant

A2 parhau ag arweinyddiaeth a rheolaeth gefnogol ond gwneud mwy i fodelu arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth a rhannu syniadau newydd gydag ymarferwyr

A3 cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn addysg sy’n effeithio ar leoliadau

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A4 ddarparu 10% o amser athrawon ymgynghorol ar gyfer pob lleoliad a sicrhau bod athrawon ymgynghorol yn ymweld â lleoliadau yn rheolaidd

A5 gwneud yn siŵr bod lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael cymorth a hyfforddiant yn yr iaith y maent yn gweithredu ynddi

A6 monitro gwaith athrawon ymgynghorol a sicrhau bod eu hanghenion hyfforddi yn cael eu nodi a’u bodloni

A7 gweithio gyda’i gilydd a gyda sefydliadau gwirfoddol i sicrhau bod lleoliadau’n cael cymorth cynhwysfawr a chysylltiedig, yn enwedig mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol a diogelu

A8 dwyn sefydliadau gwirfoddol a ariennir i gyfrif am ansawdd eu cyngor a’u harweiniad

A9 sicrhau bod cynifer o ymarferwyr nas cynhelir ag y bo modd yn gallu mynychu hyfforddiant

A10 ystyried penodi athrawon ymgynghorol am gyfnod penodol i adfywio’r gwasanaeth y gallant ei gynnig

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A11 ystyried clustnodi cyllid i wneud yn siŵr bod bob lleoliad yn cael 10% o gymorth gan athro cymwys a hyfforddiant yn ychwanegol i hyn

A12 creu rhwydwaith i athrawon ymgynghorol rannu gwybodaeth ac arfer orau

## Rôl yr athro ymgynghorol

### Cymorth a her

19 Mae rôl yr athro ymgynghorol wedi newid dros gyfnod. I ddechrau, bwriad y rôl oedd modelu arfer dda a chefnogi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Roedd athrawon ymgynghorol yn modelu arfer dda, er enghraifft sut i ddarllen storïau ac ennyn diddordeb plant mewn gwahanol weithgareddau. Yn fwy diweddar, mae'r rôl wedi datblygu i ddarparu mwy o gymorth ar gyfer arweinwyr lleoliadau ac arfarnu pa mor dda y mae'r lleoliad yn ymateb i gyngor ac arweiniad. Mae'r ffocws cynyddol hwn ar reoli'r lleoliad wedi lleihau'r ffocws ar addysgu a dysgu.

20 Mae trosiant uchel o staff yn y sector nas cynhelir, ac o ganlyniad, mae angen ystod o gymorth mewn llawer o leoliadau, gan gynnwys modelu arfer dda. Nid yw lleiafrif o leoliadau yn cael digon o arweiniad gan athrawon ymgynghorol ynghylch sut i wella'r safonau a gyflawnir gan blant neu sut i gyflwyno gweithgareddau a thasgau mewn ffyrdd gwahanol i ychwanegu amrywiaeth a diddordeb at yr hyn y maent yn ei ddarparu eisoes. Anaml y caiff y rhain eu modelu gan athro profiadol. Lleiafrif o athrawon ymgynghorol yn unig sy'n darparu arweiniad penodol am dasgau a gweithgareddau sy'n herio plant unigol. Mae hyn yn golygu nad yw lleoliadau bob amser yn darparu'n ddigon da ar gyfer plant mwy abl neu blant sy'n cael anawsterau.

21 Gan fod lleoliadau'n tueddu i weithio ar wahân, prin yw'r cyfleoedd i staff weld ymarferwyr eraill yn rhyngweithio â phlant. Mewn lleoliadau lle mae'r athro ymgynghorol yn modelu addysgu a dysgu da yn rheolaidd, mae ymarferwyr yn fwy hyderus yn rhoi cynnig ar wneud pethau mewn ffyrdd gwahanol ac mewn defnyddio adnoddau newydd i ennyn diddordeb plant. Mae gweithgareddau wedi'u modelu fel adrodd storïau a dangos sut i ennyn diddordeb plant mewn gweithgareddau creu marciau pan gânt eu rhoi ar waith gan ymarferwyr profiadol yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan blant.

22 Yn y rhan fwyaf o leoliadau a ariennir, mae'r athro ymgynghorol yn rhoi cymorth buddiol o ran datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o agweddau ar arfer yn y Cyfnod Sylfaen ac annog lleoliadau i weithredu'r agweddau hyn ohono yn eu gwaith. Mae lleoliadau wedi gwneud cynnydd da dros gyfnod o ganlyniad i fewnbwn athrawon ymgynghorol os ydynt wedi bod yn fodlon derbyn syniadau newydd.

23 Er bod llawer o athrawon ymgynghorol yn dechrau darparu lefel well o her i leoliadau ynglŷn â'u gwaith, mewn mwyafrif o leoliadau, mae gormod o ffocws o hyd ar fiwrocratiaeth cynllunio darpariaeth a dim digon ar ansawdd yr addysgu a sut i wella cynnydd plant. Pan fydd athrawon ymgynghorol yn canolbwyntio ar ansawdd rhyngweithio ymarferwyr â phlant, ceir effaith sylweddol ar y safonau a gyflawnir gan blant.

24 Mewn mwyafrif o ymweliadau â lleoliadau gan yr athro ymgynghorol, mae gormod o bwyslais ar gefnogi gwaith papur y lleoliad, er enghraifft trwy ysgrifennu cynllun datblygu neu adroddiad hunanarfarnu lleoliad. Mae hyn nid yn unig yn lleihau'r amser y dylid ei dreulio yn modelu arfer dda, nid yw ychwaith yn helpu arweinwyr i ddatblygu eu medrau eu hunain.

25 Ym mhob un o'r lleoliadau, mae'r athro ymgynghorol yn cefnogi hunanarfarnu a chynllunio gweithredu. Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae arweinwyr y lleoliad yn llenwi ffurflenni wedi'u paratoi ymlaen llaw i arfarnu perfformiad y lleoliad. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r athro ymgynghorol yn defnyddio hyn i 'deipio' dogfen hunanarfarnu'r lleoliad. O ganlyniad, nid oes gan staff y lleoliad berchnogaeth o'r broses ac nid ydynt yn arfarnu eu perfformiad yn ddigon da. Yn aml, pan fydd arolygwyr yn siarad â staff, maent yn gwybod beth maent wedi'i wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella, ond gallai hyn fod wedi cael ei golli mewn systemau rhy gymhleth ar gyfer cofnodi sy'n cael eu gorfodi gan yr awdurdod lleol.

26 Nid yw llawer o ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, mewn ardaloedd Saesneg eu hiaith yn bennaf, yn siarad Cymraeg yn rhugl. Nid oes digon o awdurdodau lleol na chonsortia yn darparu hyfforddiant i wella medrau iaith yr ymarferwyr hyn neu ddarparu hyfforddiant ar egwyddorion y dull addysgu trochi[3]. O ganlyniad, mae cynnydd plant o gartrefi di-Gymraeg yn rhy araf ac fe gaiff cynnydd rhai plant o gartrefi Cymraeg ei atal. Caiff y mater hwn ei gymhlethu pan fydd yr athro ymgynghorol yn ddi-Gymraeg hefyd ac ni all fonitro ansawdd y Gymraeg sy'n cael ei siarad gan ymarferwyr, asesu'r safonau a gyflawnir gan blant, neu helpu i gynllunio gweithgareddau addas.

27 Mae bron pob athro ymgynghorol yn rhoi cofnod ysgrifenedig o'u hymweliad i leoliadau. Mewn rhai lleoliadau, nid yw'r adroddiad ysgrifenedig am ymweliadau yn ddigon penodol ac mae'n ddim ond rhestr o feysydd a drafodwyd heb nodi cynnydd y lleoliad wrth fynd i'r afael â diffygion neu'r hyn y dylai ei wneud nesaf. Mewn llawer o leoliadau, caiff ymarferwyr adroddiad ysgrifenedig ar adeg yr ymweliad neu'n fuan ar ei ôl. Mae hyn yn eu galluogi i rannu'r wybodaeth gyda chydweithwyr a bod yn glir ynglŷn â'r camau y mae angen iddynt eu cymryd. Mae arweinwyr mewn rhai lleoliadau da yn rhannu'r wybodaeth o ymweliadau gyda staff ac yn gofyn iddynt lofnodi'r nodyn ymweliad i ddangos eu bod wedi darllen a deall yr adborth. Mae hyn yn arfer dda ac yn gwneud i bob ymarferwr deimlo'n atebol. Nid yw rhai lleoliadau'n cael adborth ysgrifenedig mewn modd amserol. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad yn mynd i'r afael â diffygion yn ddigon cyflym neu mae'n ansicr ynglŷn â'r hyn y dylai ei wneud i baratoi ar gyfer yr ymweliad nesaf.

28 Gall y rhan fwyaf o ymarferwyr ddarparu enghreifftiau o'r modd y mae athrawon ymgynghorol wedi gwella'u darpariaeth, fel eu helpu i ddatblygu parthau dysgu a datblygu'r ardal yn yr awyr agored. Gallant ddarparu rhai enghreifftiau yn unig, fodd bynnag, o'r modd y maent wedi gwella safonau o ganlyniad i gyngor a gafwyd gan yr athro ymgynghorol. Mewn llawer o leoliadau cyfrwng Saesneg, mae ymarferwyr yn nodi bod cymorth yr athro ymgynghorol wedi eu helpu i godi safonau Cymraeg fel ail iaith plant, ond ychydig o ymarferwyr yn unig sy'n nodi safonau, heblaw'r rhai yn Gymraeg, y maent wedi'u gwella o ganlyniad i'r cymorth a gânt.

29 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae athrawon ymgynghorol yn cwblhau dull

[3] Mae'r dull trochi'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r Gymraeg fel yr unig gyfrwng addysgu a dysgu, gan ddefnyddio technegau ymarferol a gweledol i helpu plant i ddatblygu geirfa a chystrawen. Hanfod y dull hwn yw cyflwyno a modelu iaith dda.

graddio RAG[4] ar berfformiad lleoliadau y maent yn ei rhannu ag ymarferwyr arweiniol. Mae hyn yn ei gwneud yn glir i leoliadau sut maent yn perfformio mewn agweddau ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth, ym marn yr athro ymgynghorol. Fodd bynnag, mae'r datganiadau y mae'r athro ymgynghorol yn barnu'r lleoliad yn eu herbyn yn aml yn rhy gymhleth ac nid ydynt yn cefnogi lleoliadau i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Yn yr awdurdodau lleol prin lle caiff dull graddio RAG neu offeryn asesu tebyg ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n hawdd i ymarferwyr ei deall, mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i leoliadau ei hystyried wrth arfarnu eu perfformiad a chynllunio ar gyfer gwella.

30 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae awdurdod lleol Wrecsam wedi codi safonau Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

**Wrecsam yn codi safonau Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg**

**Cyd-destun**

Mae awdurdod lleol Wrecsam yn ariannu 52 o leoliadau nas cynhelir ar gyfer addysg ran-amser i blant tair oed. Mae saith o'r lleoliadau hyn yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi 4.5 o athrawon ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn i gefnogi'r lleoliadau, ac mae dau ohonynt yn siarad Cymraeg. Yn ychwanegol, mae'n cyflogi dau gynorthwyydd cymorth sy'n gweithio ochr yn ochr â'r athrawon ymgynghorol.

**Strategaeth**

Fe wnaeth tîm athrawon ymgynghorol Wrecsam ddadansoddi'r adroddiadau arolygu yn y sector nas cynhelir mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg i chwilio am feysydd cyffredin i'w gwella. Nodwyd y meysydd canlynol ganddynt mewn perthynas â'r Gymraeg:

- Nid yw plant ac oedolion yn hyderus mewn defnyddio'r Gymraeg
- Nid yw'r Gymraeg bob amser yn rhan o arferion bob dydd
- Prin yw'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwarae
- Prin yw'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio Cymraeg llafar y tu mewn nac yn yr awyr agored ar draws pob maes dysgu
- Nid yw ymarferwyr yn ymarfer nac yn ailadrodd geiriau Cymraeg yn ddigon rheolaidd
- Ni wneir digon o ddefnydd o'r Gymraeg mewn darpariaeth barhaus a gwell i atgyfnerthu medrau Cymraeg plant

**Camau gweithredu**

Gan mai ychydig iawn o Gymraeg, os o gwbl, oedd gan bron bob un o'r ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector cyfrwng Saesneg yn Wrecsam, penderfynodd y tîm ddatblygu adnoddau a oedd yn cyflwyno mwy o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn

[4] System i raddio gwahanol agweddau ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth, yn goch, ambr neu wyrdd yn unol â pherfformiad; gwyrdd yw'r mwyaf llwyddiannus.

raddol wrth i ymarferwyr fagu hyder. Cafodd hyn ei alw ar lafar fel y dull 'saws coch' – byddai ymarferwyr yn ychwanegu ymadrodd neu air allweddol mewn brawddeg Saesneg yn bennaf i fagu hyder ymhlith oedolion a phlant. Er enghraifft, roedd ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r gair Cymraeg ar gyfer 'sand' neu 'home corner', fel y byddai plant ymhen amser yn gofyn yn naturiol, "Can I play in the tywod please?" neu "Can I play in the tŷ bach twt please?"

Fe wnaeth y tîm ddatblygu pecyn adnoddau Cymraeg i gefnogi'r dull hwn. Anogwyd pob un o'r ymarferwyr i ddefnyddio 11 o ymadroddion allweddol i ddechrau magu hyder. Crëwyd cryno ddisg o ganeuon a rhigymau gyda rhythmau cryf ac ailadrodd gan yr athrawon ymgynghorol hefyd i annog geirfa newydd a chryfhau ynganiad. Gwnaeth yr athrawon ymgynghorol yn siŵr fod ymarferwyr yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r ymadroddion a'r caneuon Cymraeg trwy roi arweiniad ar ynganu trwy ysgrifennu geirfa, ymadroddion a chaneuon Cymraeg yn seinegol yn Saesneg. Roedd y pecyn yn cynnwys ymadroddion ar gyfer gwneud y Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd yn y lleoliad hefyd, er enghraifft yn ystod cyfnod cofrestru a chyfnod byrbryd. Roedd llyfryn ar gyfer rhieni yn esbonio manteision defnyddio'r Gymraeg i blant a phwysigrwydd eu hannog i ddefnyddio'r geiriau a'r ymadroddion gartref gyda'u plant.

Fe wnaeth yr athrawon ymgynghorol ddarparu hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr mewn defnyddio'r deunyddiau a chefnogi a herio lleoliadau i roi'r pecyn adnoddau ar waith yn ystod eu hymweliadau amserlenedig â lleoliadau.

**Deilliannau**

Ymwelodd Estyn â thri lleoliad[5] yn haf 2014, a mynychodd weithdy Ysgol Goedwig yn Nhŷ Erlas gyda phedwerydd lleoliad, i edrych ar effaith y fenter hon. Fe wnaethom ganfod ym mhob lleoliad bod ymarferwyr yn defnyddio'r ymadroddion, y caneuon a'r rhigymau Cymraeg yn gyson. Roedd plant yn hyderus ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol ac yn aml yn annibynnol. Er enghraifft, roedd plant yn defnyddio geiriau Cymraeg i ddisgrifio arferion bob dydd, er enghraifft "It's amser tacluso now," neu "It's amser stori after llaeth." Fe wnaethant ateb y cwestiwn, "Beth sydd yn y bag?" trwy ddyfalu "mouse bach".

Roedd plant yn aml yn cyfrif gwrthrychau'n gywir yn Gymraeg ac yn siarad am fod angen "sticks mawr" i adeiladu lloches ar gyfer "baby draenog". Nid oeddent yn pryderu am wneud camgymeriadau ac roedd y Gymraeg yn rhan naturiol a hwyliog o'u harferion bob dydd.

Wrth i ymarferwyr barhau i fagu hyder, maent yn addasu'r caneuon a'r ymadroddion i gynnwys arferion a themâu newydd sy'n bersonol i'w lleoliad ac maent yn datblygu eu pecyn adnoddau eu hunain ar gyfer rhieni.

[5] Cylch Chwarae Cyn-Ysgol y Waun, Meithrinfa Ddydd Caego a'r Bers a Grŵp Cyn-Ysgol Little Treasures, Cylch Chwarae Li'l Stars

## Dyrannu adnoddau

31 Nid yw amodau Grant y Cyfnod Sylfaen yn nodi sut y dylai athrawon ymgynghorol ddarparu cymorth 10% ar gyfer lleoliadau. Ledled Cymru, ceir llawer o fodelau gwahanol o gymorth 10%. Mewn mwyafrif o awdurdodau lleol, mae'r athro ymgynghorol yn ymweld â phob lleoliad tua phob pythefnos am o leiaf ddwy awr. Mae hyn gyfwerth â 10% o'r amser y mae'r lleoliad yn darparu addysg gynnar ar gyfer plant. I leihau gwastraff a achosir trwy deithio, mae athrawon ymgynghorol yn tueddu i ddarparu dwy awr o gymorth bob pythefnos yn hytrach nag awr bob wythnos. Mae hyfforddiant yn aml yn ychwanegol i'r cymorth hwn, er bod lleiafrif o awdurdodau lleol yn ystyried hyfforddiant yn rhan o hawl athro ymgynghorol lleoliad. Mewn mwyafrif o leoliadau, ceir cydbwysedd priodol rhwng yr amser y caiff lleoliadau gymorth uniongyrchol gan yr athrawon ymgynghorol a'r amser sy'n cael ei dreulio ar hyfforddiant. Y model mwyaf llwyddiannus yw pan fydd lleoliadau'n cael 10% o amser athro ymgynghorol yn y lleoliad, ac mae'r hyfforddiant yn ychwanegol, a disgwylir bod lleoliadau'n mynychu isafswm o hyfforddiant bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r model hwn yn gweithredu mewn rhai awdurdodau lleol yn unig.

32 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn defnyddio model 'nodi anghenion' ar gyfer dyrannu faint o amser y mae pob lleoliad yn ei gael. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad ydynt o reidrwydd yn cydymffurfio â gofynion Grant y Cyfnod Sylfaen, am nad ydynt yn darparu 10% o gymorth athro ymgynghorol ar gyfer pob lleoliad. Mae mwyafrif o leoliadau'n cael llai na 10% o amser athro ymgynghorol ac mae mewnbwn yr athro ymgynghorol yn achlysurol yn hytrach na rheolaidd. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn barnu bod lleoliadau sy'n cael llai o gymorth yn perfformio'n well. Fodd bynnag, nid yw darparu llai na 10% o amser athro ymgynghorol ar gyfer y lleoliadau hyn bob amser yn golygu bod lleoliadau eraill yn cael mwy na'u dyraniad 10%. Mewn llawer o achosion, nid yw lleoliadau da sy'n cael llai na'u dyraniad 10% yn cael y cymorth a'r her sydd ei angen arnynt i fod yn lleoliadau rhagorol.

33 Mae awdurdod lleol Sir Ddinbych wedi cyflwyno model cymorth gwahanol yn ddiweddar. Mae'n arbrofi â'r dull hwn mewn 12 lleoliad. Yn y model hwn, mae athrawon blynyddoedd cynnar profiadol o ysgolion yn cefnogi ymarferwyr yn eu lleoliad a ariennir yn lleol. Yn ychwanegol, mae athrawon ymgynghorol sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol yn ymweld â'r lleoliad bob hanner tymor. Trwy'r broses hon, mae'r awdurdod lleol yn monitro ansawdd y cymorth a'r her a ddarperir gan yr ysgol ac yn sicrhau bod dull cyson ar gyfer pob lleoliad hefyd. Mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd cyffredinol y model hwn. Fodd bynnag, ceir arwyddion cynnar o effaith gadarnhaol ar fedrau plant a chyfnod pontio mwy esmwyth i'r ysgol o'r cylch chwarae ar gyfer y plant ifanc hyn. Mewn un lleoliad, mae'r athro yn modelu gweithgareddau i ddatblygu medrau plant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac fe gaiff y lleoliad gyfleoedd defnyddiol i rannu adnoddau'r ysgol.

34 Yn gyffredinol, nid yw athrawon ymgynghorol yn darparu mwy o gymorth nac yn targedu adnoddau ychwanegol mewn lleoliadau lle ceir mwy o dlodi neu amddifadedd. Pan fydd lleoliadau'n cael amser a chymorth athro ymgynghorol ychwanegol, mae hyn yn bennaf o ganlyniad i bryderon ynghylch ansawdd y ddarpariaeth yn y lleoliad. Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi asesu p'un a yw darparu mwy o gymorth athro ymgynghorol ar

gyfer lleoliadau lle mae niferoedd sylweddol o blant yn profi effaith tlodi ac amddifadedd yn effeithio ar ddeilliannau ar gyfer plant.

35 Dywed bron pob lleoliad eu bod yn cael ymweliadau ychwanegol a chymorth cynyddol wedi i Estyn eu hysbysu ynghylch arolygiad. Anaml y mae'r athro ymgynghorol yn cynnal y lefel hon o gymorth pan fydd yr arolygiad wedi dod i ben, oni bai bod materion arwyddocaol yn cael eu codi o ganlyniad i'r arolygiad. Ychydig iawn o gymorth a gaiff rhai lleoliadau yn y cyfnod yn dilyn arolygiad er bod angen cymorth arnynt i ymateb i'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad a myfyrio ar yr hyn a ganfuwyd gan arolygwyr. Dywed llawer o leoliadau nad ydynt yn cael eu hymweliadau trefnedig oherwydd bod Estyn wedi hysbysu lleoliad arall am arolygiad. Nid yw canolbwyntio amser athro ymgynghorol ar baratoi lleoliadau ar gyfer arolygiad yn gwneud defnydd da o amser ac nid yw'n darparu'r gwasanaeth gorau. Nid yw lleoliad sydd ar fin cael ei arolygu mewn mwy o berygl nac yn fwy haeddiannol i gael cymorth o reidrwydd na lleoliadau y mae eisoes yn hysbys bod angen cymorth arnynt.

36 Mae gan lawer o awdurdodau lleol gontractau gyda lleoliadau. Mae'r rhain yn nodi'r math o gymorth y bydd yr athro ymgynghorol yn ei ddarparu a'r hyn y mae'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol yn ei ddisgwyl gan y lleoliad yn gyfnewid am hyn. Mae hyn yn aml yn cynnwys disgwyliadau am y presenoldeb derbyniol gofynnol mewn digwyddiadau hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw contractau yn gyffredinol yn nodi nifer yr ymweliadau gan athrawon ymgynghorol ac nid ydynt yn galluogi lleoliadau i ddwyn yr awdurdod lleol neu'r consortiwm i gyfrif.

37 Mae athrawon ymgynghorol yn gwneud y mwyaf o'u hymweliadau trwy gynllunio'u gwaith yn ofalus. Mae hyn yn sicrhau'r defnydd gorau o'u hamser ac yn lleihau'r aflonyddwch sydd weithiau'n digwydd mewn lleoliadau, yn enwedig lleoliadau bach, pan fydd yn rhaid i ymarferwyr adael plant i siarad â'r athro ymgynghorol, er enghraifft mewn perthynas â mynd i'r afael â materion hunanarfarnu. Gellid cynnig cymorth yn well mewn digwyddiadau hyfforddi lle caiff ymarferwyr gyfleoedd i fyfyrio ar eu harfer heb fod yn rhaid iddynt ymateb i anghenion plant. Rhoddir gwybodaeth am y ffordd orau y mae athrawon ymgynghorol yn defnyddio'u hamser yn effeithiol yn Atodiad 3.

38 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae awdurdod lleol Sir y Fflint yn cefnogi lleoliad gyda chynllunio ac asesu, tra bydd yn cynnal ffocws ar addysgu a dysgu.

**Awdurdod lleol Sir y Fflint yn llwyddiannus wrth gefnogi lleoliadau y mae angen eu gwella**

**Cyd-destun**

Mae awdurdod lleol Sir y Fflint yn ariannu 58 o leoliadau nas cynhelir ar gyfer addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Mae pum lleoliad a ariennir yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi 4.5 o athrawon ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn i gefnogi'r lleoliadau hyn, ac mae dau ohonynt yn siarad Cymraeg. Yn ychwanegol, mae'n cyflogi dau gynorthwyydd cymorth sy'n gweithio ochr yn ochr â'r athrawon ymgynghorol.

**Strategaeth**

Mae athrawon ymgynghorol yn treulio o leiaf 10% o amser a ariennir yn uniongyrchol gyda phob lleoliad a ariennir. Maent yn darparu hyfforddiant ychwanegol hefyd. Mae athrawon ymgynghorol yn darparu cymorth ychwanegol i leoliadau y maent wedi nodi bod angen lefel fwy o gymorth a her arnynt.

**Camau gweithredu**

Wedi i'r tîm ymgynghorol nodi bod angen lefel fwy o gymorth a her ar leoliad, mae'r athro ymgynghorol yn bwriadu cynnal ymweliadau ychwanegol y tu hwnt i'r 10% o'r amser y mae'r lleoliad yn ei weithredu. Mae'r tîm ymgynghorol yn cynnwys y dyraniad amser hwn yn eu cynllunio cyffredinol, ond yn cynnal o leiaf 10% o amser cymorth mewn lleoliadau eraill. Mae ffocws penodol i ymweliadau, sydd wedi'i gysylltu'n agos â chynllun datblygu'r lleoliad. Mae athrawon ymgynghorol yn cefnogi'r lleoliad i lunio'r cynllun hwn ac yn monitro'r ffordd y caiff y cynllun ei roi ar waith a'i effeithiolrwydd.

Mae'r athrawes ymgynghorol yn aml yn dod â nyrs feithrin gyda hi i fodelu gweithgareddau ar gyfer yr ymarferwyr neu i weithio gyda'r plant tra bydd hi'n trafod materion gydag ymarferwyr. Mae hyn yn sicrhau bod oedolyn yn gweithio gyda'r plant ac nad ydynt yn colli mewnbwn oedolyn tra bydd yr athrawes ymgynghorol yn cynorthwyo ymarferwyr. Mae athrawon ymgynghorol yn disgwyl i ymarferwyr weithredu yn unol â'r cyngor a roddwyd a dangos hyn mewn ymweliadau dilynol.

Mae athrawon ymgynghorol yn llunio adroddiadau ysgrifenedig clir o'u hymweliad. Mae'r lleoliad yn cael y rhain naill ai adeg yr ymweliad neu'n fuan ar ôl hynny. Mae athrawon ymgynghorol yn cydnabod bod y lleoliad yn gwneud yn dda ac yn ei gwneud yn glir yr hyn y mae angen iddo wella. Nodir ffocws yr ymweliad nesaf a phryd y bydd yn cael ei gynnal. Pan fydd yr athrawes ymgynghorol yn nodi angen sylweddol am gymorth, mae'r cyfnodau rhwng ymweliadau yn lleihau ac fe gafwyd achosion pan mae hi wedi dod yn ôl y diwrnod canlynol i fonitro cynnydd.

Mae athrawon ymgynghorol yn dyfalbarhau i gefnogi a herio lleoliadau, hyd yn oed pan fydd ymarferwyr yn gwrthwynebu newid. Maent yn amlygu arfer dda ac yn mynd ag ymarferwyr i ymweld â lleoliadau eraill i'w cefnogi i ddatblygu eu medrau.

**Deilliannau**

Mae lleoliadau y nodwyd bod angen eu gwella yn gwneud cynnydd da. Mae'r athrawes ymgynghorol wedi cynnal perthnasoedd gweithio da gydag ymarferwyr ond gan eu herio i wella. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn fodlon gweithredu yn unol â chyngor yr athrawes ymgynghorol a myfyrio ar y cynnydd y maent wedi'i wneud o dan ei harweiniad.

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn llwyddiannus yn cynnal darpariaeth ar gyfer plant tair oed a ariennir mewn ardaloedd o amddifadedd lle mae'r angen mwyaf. Heb y cymorth dwys a ddarperir gan yr athrawes ymgynghorol, ni fyddai lleoliadau'n cyrraedd y safonau gofynnol i barhau â chyllid.

39 Nid yw pob awdurdod lleol yn ariannu lleoedd addysg rhan-amser mewn lleoliadau trwy gydol y flwyddyn. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nid oes lleoedd a ariennir mewn lleoliadau nas cynhelir rhwng Medi a Rhagfyr. Mae hyn oherwydd bod yr awdurdod lleol yn derbyn plant tair oed yn syth i ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Serch hynny, mae'r awdurdodau lleol hyn yn parhau i ariannu athrawon ymgynghorol am dymor yr hydref. Trwy gynnal cyswllt â lleoliadau yn ystod y cyfnod hwn, ceir cyfleoedd defnyddiol i drafod unrhyw welliannau y mae'r lleoliad yn bwriadu eu rhoi ar waith. Mae'n helpu lleoliadau i baratoi ar gyfer carfanau newydd o blant hefyd. Mae hyn yn hynod ddefnyddiol pan fydd lleoliadau ar fin derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac y mae angen cyngor a chymorth arnynt.

40 Mae heriau i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran amseru digwyddiadau hyfforddi fel bod ymarferwyr o bob lleoliad yn gallu mynychu. Yn aml, mae lleoliadau yn ei chael yn anodd rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant gan na allant ddarparu digon o staff llanw yn eu lle. Mae rhai awdurdodau lleol yn ymwybodol o hyn ac yn amrywio amser yr hyfforddiant yn unol â hynny. Mae rhai ohonynt yn ailadrodd yr hyfforddiant ar adegau gwahanol yn ystod yr wythnos. I rai lleoliadau, mae'r amser a'r pellter i deithio yn gyfyngol, yn enwedig lle mae'r consortiwm yn cyflwyno hyfforddiant ac yn ei gynnal y tu allan i'w hawdurdod lleol. Pan fydd awdurdodau lleol yn disgwyl i ymarferwyr fynychu hyfforddiant y tu allan i oriau arferol lleoliad, nid ydynt yn aml yn ystyried y ffaith fod gan ymarferwyr ymrwymiadau teuluol neu swyddi eraill sy'n ei gwneud yn anodd iddynt fynychu. Yn ychwanegol, nid oes gan rai lleoliadau'r cyllid i dalu am yr oriau ychwanegol sydd eu hangen ar staff i allu mynychu hyfforddiant. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n dyrannu cyllid i leoliadau i'w cynorthwyo i ryddhau staff ar gyfer digwyddiadau hyfforddi. Mae hyn yn tueddu i wella presenoldeb mewn hyfforddiant ac yn gwneud i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ond nid yw'n mynd i'r afael â'r broblem fod lleoliadau'n ei chael yn anodd darparu staff llanw i weithio yn lle ymarferwyr.

41 Nid yw awdurdodau lleol a chonsortia bob amser yn gallu darparu hyfforddiant trwy gyfrwng iaith y cyfarwyddyd a ddefnyddir yn y lleoliad. Er enghraifft, mae llawer o awdurdodau lleol yn Ne Cymru yn cynnig a chyflwyno rhaglenni hyfforddi yn Saesneg yn unig ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Maent yn trefnu bod deunyddiau ar gael naill ai'n ddwyieithog, ond yn dweud bod y rhan fwyaf o gynrychiolwyr yn dewis cael hyfforddiant yn Saesneg gan eu bod yn teimlo nad yw eu medrau Cymraeg yn ddigon da i'w galluogi i ddeall yr hyfforddiant. Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, mae'r hyfforddiant yn Gymraeg yn unig. Yn yr awdurdodau lleol hyn, lle mae lleoliadau cyfrwng Saesneg yn brin, mae ymarferwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg yn ei chael yn anodd cymryd rhan mewn hyfforddiant.

## Gweithio gydag eraill

42 Mae gan rai awdurdodau lleol gysylltiadau agos â'r sefydliadau sector gwirfoddol sy'n cefnogi lleoliadau. O ganlyniad, mae lleoliadau yn yr ardaloedd hyn yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r math o gymorth y gallant ei gael gan yr athro ymgynghorol, yr awdurdod lleol, a'r sefydliadau sector gwirfoddol. Mae rolau wedi'u diffinio'n glir ac fe gaiff y sefydliadau sector gwirfoddol perthnasol eu cynnwys mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol gyda'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i asesu anghenion hyfforddi a rhannu gwybodaeth am leoliadau'n dda. Mae hyn yn annog cydweithio agosach a neges gyson. Rhoddir enghraifft isod o asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd yn dda:

**Defnyddio rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn effeithiol – awdurdod lleol Casnewydd a Chonsortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg**

**Cyd-destun**

Mae awdurdod lleol Casnewydd wedi'i gysylltu â chonsortiwm rhanbarthol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae 26 o leoliadau yn awdurdod lleol Casnewydd, ac mae un ohonynt yn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Mae 2.4 athro ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn sy'n cefnogi'r lleoliadau. Mae Consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cyflogi'r athrawon ymgynghorol ac maent yn dod o dan gyfarwyddyd Ymgynghorydd Her y Cyfnod Sylfaen. Mae'r consortiwm yn darparu modiwl statudol a hyfforddiant pwrpasol ar gyfer lleoliadau.

**Strategaeth**

Mae awdurdod lleol Casnewydd wedi datblygu system o gyfarfodydd rhwydwaith lle mae lleoliadau, sefydliadau'r sector gwirfoddol, yr awdurdod lleol a'r athrawon ymgynghorol yn dod at ei gilydd i rannu gwybodaeth. Y nod yw rhoi gwybodaeth gyson i bob sefydliad sy'n gysylltiedig â lleoliadau am yr hyn y mae'r naill a'r llall yn ei ddarparu a sicrhau bod pob lleoliad yn gwybod ble i gael y cymorth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion.

**Camau gweithredu**

Mae athrawon ymgynghorol yn trefnu cyfarfodydd bob tymor. Cânt eu cynnal ar amseroedd sy'n gyfleus i leoliadau. Mae hyn yn golygu bod pob un o staff y lleoliad yn gallu mynychu gyda'i gilydd. Mae cyfarfodydd yn rhoi cyfleoedd da i ymarferwyr weld beth mae lleoliadau eraill yn ei wneud. Mae pob cyfarfod yn tueddu i ddilyn fformat cyffredin, sef:

- mewnbwn gan yr athro ymgynghorol
- mewnbwn gan dîm y blynyddoedd cynnar yn yr awdurdod lleol
- mewnbwn gan sefydliadau gwirfoddol
- mewnbwn gan swyddog anghenion dysgu ychwanegol yn yr awdurdod lleol
- tasg neu adnodd i'w roi ar brawf ar gyfer y sesiwn nesaf
- adborth o'r dasg neu'r adnodd blaenorol
- cyfleoedd i rannu arfer dda
- cyfleoedd i holi cwestiynau

**Deilliannau**

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn mynychu'r cyfarfodydd rhwydwaith ac yn eu gweld yn ddefnyddiol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan leoliadau am y rhwydweithiau. Mae pob un o'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r lleoliadau yn gwybod pa feysydd y maent yn gyfrifol amdanynt a beth mae pob un ohonynt yn ei ddarparu. O ganlyniad, gallant gyfeirio lleoliadau i'r lle gorau am gyngor penodol pan ofynnir iddynt. Mae pob un o'r sefydliadau sy'n cefnogi lleoliadau yn clywed yr un negeseuon ac fe gynigir cyngor cyson.

43 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae diffyg partneriaeth waith agos rhwng yr athrawon ymgynghorol a'r asiantaethau sector gwirfoddol yn arwain at ddryswch i ymarferwyr o ran pwy sy'n gyfrifol am beth. O ganlyniad, gall ymarferwyr gael cyngor anghyson ac mae bylchau pwysig yn y cyngor a'r cymorth a gânt, er enghraifft ynghylch gweithdrefnau diogelu neu sut i gynorthwyo plant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r awdurdod lleol bob amser yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am fonitro ansawdd a chywirdeb y cymorth a gaiff lleoliadau gan sefydliadau sector gwirfoddol, hyd yn oed pan fydd yn talu'n uniongyrchol am y gwasanaeth hwn.

44 Mae gan bron bob awdurdod lleol leoliadau y maent yn eu hariannu ar gyfer addysg gynnar sydd hefyd yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg[6] wedi'u hariannu ar gyfer plant dwy oed. Mae Dechrau'n Deg yn cyflogi eu hathro ymgynghorol eu hunain i gefnogi'r lleoliadau hyn. Yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau hyn, mae'r athro ymgynghorol ac athro ymgynghorol Dechrau'n Deg yn dechrau gweithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw'r lleoliad yn cael cyngor anghyson ac nad yw gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio gweithredu yn cael eu dyblygu. Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau, nid yw hyn yn digwydd ac nid yw'r lleoliadau'n siŵr ynglŷn â sut i fynd ymlaen.

45 Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, mae Gwasanaethau Plant yn cynnal rhaglenni hyfforddi ar gyfer y sector nas cynhelir sy'n debyg i raglenni hyfforddi'r consortiwm rhanbarthol. Nid yw'n ymddangos bod y naill asiantaeth na'r llall yn ymwybodol o'r dyblygu aneffeithlon hwn.

## Rhannu arfer dda

46 Yn gynyddol, mae athrawon ymgynghorol yn nodi arfer dda mewn lleoliadau eraill ac yn mynd gyda staff i weld arfer dda mewn lleoliad arall. Mae rhai ohonynt yn annog ymarferwyr i weld yr astudiaethau achos arfer orau ar wefan Estyn. Mewn llawer o leoliadau, mae ymarferwyr wedi addasu eu harfer ar ôl gweld arfer dda mewn lleoliadau eraill, er enghraifft wrth ddatblygu system gweithwyr allweddol, addasu cynllunio neu wella darpariaeth awyr agored. Fodd bynnag, bron ym mhob un o'r astudiaethau achos hyn, nid oes digon o ffocws ar y safonau a gyflawnir gan blant.

47 Mae llawer o athrawon ymgynghorol yn defnyddio cyfleoedd hyfforddi'n dda i rannu arfer dda. Maent yn rhannu enghreifftiau o'r lleoliadau y maent yn eu cefnogi ac weithiau'n gofyn i leoliadau wneud cyflwyniad am agwedd ar eu harfer sy'n hynod lwyddiannus. Mae staff lleoliadau yn gweld y sesiynau hyn yn ddefnyddiol ac yn croesawu'r cyfle i drafod arfer gydag ymarferwyr eraill. Dywed rhai lleoliadau eu bod wedi ymweld â lleoliadau eraill yn dilyn cyflwyniad mewn digwyddiad hyfforddi. Mae hyn yn aml ar ôl iddynt gyflwyno rhywbeth newydd eu hunain ac mae arnynt eisiau ei ddatblygu ymhellach.

---

[6] Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser am ddim ar gyfer plant dwy oed i helpu eu paratoi ar gyfer yr ysgol. Maent yn darparu lefelau cynyddol o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta hefyd i roi'r dechrau gorau posibl i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007.

48 Pan fydd athrawon ymgynghorol yn cael cyfleoedd da i gyfarfod a chydweithio, maent yn trafod a rhannu enghreifftiau o arfer dda neu ragorol ac yn teimlo'n fwy hyderus i lunio barnau gyda chymorth pobl eraill.

49 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhannu arfer dda o fewn un sector. O bryd i'w gilydd, mae rhai awdurdodau lleol yn rhannu arfer dda ar draws sectorau, er bod hyn fel arfer yn golygu rhannu gwaith ysgolion gyda lleoliadau (yn hytrach nag i'r gwrthwyneb). Ychydig iawn o awdurdodau lleol yn unig sy'n rhannu arfer dda mewn lleoliadau gydag ysgolion, er gwaethaf tystiolaeth sy'n awgrymu bod agweddau ar arfer y gallai ysgolion elwa arnynt. Yng Ngheredigion, er enghraifft, mae athrawon ymgynghorol yn defnyddio deunyddiau hyfforddi o ansawdd uchel a luniwyd ar gyfer lleoliadau mewn dosbarthiadau meithrin ysgolion er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn canolbwyntio o'r newydd ar arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen.

50 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y modd y mae consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn defnyddio Twitter i roi gwybod i bob lleoliad ac ysgol am ddatblygiadau yn arfer y Cyfnod Sylfaen a rhannu enghreifftiau o arfer dda yn rheolaidd.

**Defnyddio Twitter i rannu arfer dda**

**Cyd-destun**

Mae consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cefnogi 86 o leoliadau nas cynhelir ar draws pum awdurdod lleol, ac mae 10 o'r lleoliadau yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae'n cyflogi 8.4 o athrawon ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn, a gall 2.4 ohonynt gefnogi lleoliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Strategaeth**

Roedd consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg eisiau ffordd syml, hawdd i'w defnyddio o gyrraedd cynifer o'i ymarferwyr ag y bo modd yn uniongyrchol a rhannu syniadau ac arfer dda. Mae'r consortiwm yn ymwybodol, os oes un ymarferwr yn unig o ysgol neu leoliad yn mynychu hyfforddiant, ei bod yn bosibl y gall y wybodaeth aros gyda nhw ac efallai na fyddant yn ei rhannu. Am fod gan y rhan fwyaf o oedolion ffonau clyfar neu ddyfeisiau electronig, penderfynodd y consortiwm sefydlu cyfrif Twitter a chyhoeddi ei fod yn defnyddio'r cyfrif i rannu negeseuon a gwybodaeth bwysig a darparu syniadau arloesol.

**Camau gweithredu**

Mae gan gonsortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gyfrif Twitter gweithredol. Fe'i sefydlwyd yng Ngorffennaf 2013 ac mae ganddo dros 1,300 o ddilynwyr hyd yn hyn. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu bob wythnos. Mae athrawon ymgynghorol yn credu bod 'lluniau'n peintio mil o eiriau' ac mae'r ffrwd Twitter yn cynnwys llawer o luniau o waith plant, adnoddau a syniadau i ysbrydoli'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ifanc. Mae rheolwr y cyfrif yn trydar arfer dda bob dydd gan ystod o addysgwyr cynnar lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ogystal â rhannu gwybodaeth a roddwyd gan ymarferwyr. Mae'r athrawon ymgynghorol yn mynd ati i hyrwyddo'r cyfrif ar bob cwrs ac ymweliadau â lleoliadau.

**Deilliannau**

Mae consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn mynd ati i hyrwyddo negeseuon allweddol o hyfforddiant ymhlith cynulleidfaoedd ehangach. Mae defnyddio Twitter yn galluogi'r consortiwm i rannu arfer dda â'i ysgolion a'i leoliadau ei hun a thu hwnt. Mae lleoliadau'n mynd ati i roi enghreifftiau o effaith yr hyfforddiant o ran gwella safonau a darpariaeth ar y cyfrif. Mae lleoliadau'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn hyrwyddo'u gwaith ochr yn ochr â gwaith ysgolion ac fe geir diwylliant cynyddol o rannu arfer dda gyda phob sector. Dywed lleoliadau nas cynhelir fod mynediad hawdd at enghreifftiau o arfer dda yn dylanwadu ar waith ymarferwyr eraill yn y lleoliad nad ydynt efallai wedi mynychu cyrsiau. Mae'r cyfrif yn codi proffil gwaith lleoliadau yng nghonsortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

## Rôl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

### Rheoli'r cyllid

51 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ariannu athrawon ymgynghorol o Grant y Cyfnod Sylfaen. Nid oes dull cyffredin o weinyddu Grant y Cyfnod Sylfaen ar draws awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae cost darparu cymorth athrawon ymgynghorol yn amrywio o ryw £2,800 i ryw £6,000 ar gyfer pob lleoliad nas cynhelir ar draws awdurdodau lleol. Mae'r symiau gwahanol iawn o arian a ddyrennir i ddarparu cymorth gan athrawon ymgynghorol yn golygu bod gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru yn swm ac ansawdd y cymorth a'r her a ddarperir.

52 Wrth ddyrannu cyllid Grant y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn rhoi blaenoriaeth i fodloni cymarebau Cyfnod Sylfaen ar gyfer staff mewn ysgolion, wedi'i ddilyn gan ddarparu hyfforddiant a chymorth i ysgolion. Maent yn dyrannu gweddill y cyllid i fodloni'r gofyniad ar gyfer amser athro ymgynghorol mewn lleoliadau nas cynhelir ac i ddarparu hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr. Nid oes digon o gyllid ar ôl i ddarparu 10% o amser athro ymgynghorol mewn mwyafrif o leoliadau.

53 Mae awdurdodau lleol yn ariannu lleoliadau mewn ffyrdd gwahanol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r lleoliad yn cael swm fesul awr am bob lle a ariennir, ac mewn llawer ohonynt, mae swm i bob plentyn fesul tymor. Mae swm y cyllid fesul lle yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Mewn rhai lleoliadau, nid yw'r swm a ddarperir i dalu cost lle a ariennir yn cyfateb i'r swm y mae lleoliadau'n ei godi ar rieni am le na chaiff ei ariannu, ac felly mae'r lleoliad yn gwneud mwy o arian trwy ddarparu lleoedd na chânt eu hariannu.

54 Mae rhai awdurdodau lleol yn ystyried datganoli rheoli Grant y Cyfnod Sylfaen i gonsortia. Mae'r anghysondeb presennol ar draws awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn ariannu lleoliadau, athrawon ymgynghorol a rhaglenni hyfforddi yn rhwystro hyn. Cymhlethdod ychwanegol yw bod y cyfrifoldeb am leoliadau nas cynhelir y tu

allan i wasanaethau addysg mewn dau awdurdod lleol, ac yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, mae gan bob plentyn tair oed le meithrin mewn ysgol. Ar hyn o bryd, consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn unig sy'n gweinyddu Grant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer pob un o'i awdurdodau lleol partner. Mae consortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cyflogi'r athrawon ymgynghorol hefyd. Er bod yr athrawon ymgynghorol yn cefnogi lleoliadau mewn un awdurdod lleol yn bennaf, mae hyn yn eu galluogi i weithio ar draws awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant a chymorth lle mae angen penodol am eu harbenigedd. Er enghraifft, mae hyn yn sicrhau bod cymorth priodol ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg, gan mai ychydig iawn o leoliadau cyfrwng Cymraeg a geir mewn rhai o'r awdurdodau lleol, ac nid yw pob un o'r athrawon ymgynghorol yn siarad Cymraeg. Mae'r darlun cymysg hwn yn golygu nad yw plant tair a phedair oed sy'n mynychu lleoliadau bob amser yn cael ansawdd ac ystod y ddarpariaeth a gynigir gan ysgolion. Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cynllunio'n systematig i sicrhau bod hawl plentyn i addysg a ariennir yn cael ei bodloni'r un mor dda mewn ysgolion a lleoliadau fel ei gilydd.

## Monitro gwaith athrawon ymgynghorol

55 Mae'r graddau y caiff gwaith athrawon ymgynghorol ei fonitro yn amrywio ledled Cymru. Mae gan lawer o athrawon ymgynghorol ddisgrifiadau swydd penodol sy'n gyfoes. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae disgrifiadau swydd yn generig ac ni chânt eu haddasu i adlewyrchu heriau penodol y rôl mewn gwahanol feysydd. Er enghraifft, mae rhai athrawon ymgynghorol yn cefnogi lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

56 Mae gan bron bob un o'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol weithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â chyflog ac amodau athrawon. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n arsylwi athrawon ymgynghorol yn gweithio mewn lleoliad ar hyn o bryd. Mewn llawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, mae swyddogion arwain sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am athrawon ymgynghorol yn cael blas ar ddigwyddiadau hyfforddi i fonitro ansawdd a chyflwyno a chynnal trosolwg o adborth o ffurflenni arfarnu hyfforddiant. Nid ydynt yn arfarnu effaith yr athro ymgynghorol ar addysgu a dysgu yn uniongyrchol.

57 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, caiff monitro anffurfiol ei gynnal yn rheolaidd trwy gyfarfodydd tîm a chraffu ar adroddiadau ysgrifenedig o ymweliadau. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, mae swyddogion arwain yn samplu ac anodi adroddiadau ysgrifenedig o ymweliadau â lleoliadau i gynorthwyo'r athrawon ymgynghorol o ran eu gwneud yn fwy penodol a phwrpasol.

58 Mewn rhai awdurdodau lleol, mae athrawon ymgynghorol yn cynnal ymweliadau ar y cyd â chydweithwyr. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn os ydynt wedi nodi mater mewn lleoliad penodol a'u bod am gael ail farn. Mae athro ymgynghorol profiadol fel arfer yn mynd gydag athro ymgynghorol arall, ac mae hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i gadarnhau barnau am safonau a darpariaeth a chytuno ar y ffordd orau o gefnogi'r lleoliad.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

### Athrawon ymgynghorol

59 Mewn mwyafrif o awdurdodau lleol, mae ffocws priodol ar gynnal a gwella medrau ac arbenigedd yr athrawon ymgynghorol. Bron ym mhob un o'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, gall yr athrawon ymgynghorol elwa ar hyfforddiant, sy'n berthnasol i'w rôl, a ddarperir ar gyfer ysgolion.

60 Pan fydd athrawon ymgynghorol yn gweithio mewn ysgolion a lleoliadau, cânt gyfleoedd gwell i weld effaith mentrau newydd, fel cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Yn ychwanegol, cânt gyfleoedd da i gymharu safonau yn y ddau sector i sicrhau bod plant yn cael yr un ansawdd o addysg yn y naill a'r llall. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi achosi i athrawon ymgynghorol ddefnyddio lleoliadau fel enghraifft o arfer dda lle maent yn teimlo bod addysg gynnar mewn ysgolion yn mynd yn rhy ffurfiol yn rhy gyflym.

61 Mewn rhai awdurdodau lleol, yn enwedig lle nad yw athrawon ymgynghorol yn gweithio mewn ysgolion, nid ydynt bob amser yn cael gwybodaeth berthnasol ac amserol am newidiadau sy'n effeithio ar y sector yn y ffordd y mae staff ysgol yn ei chael. Er enghraifft, nid ydynt yn cael digon o wybodaeth yn rheolaidd am fentrau allweddol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac nid ydynt felly mewn sefyllfa dda i gefnogi lleoliadau wrth gyflwyno'r mentrau hyn.

### Ymarferwyr mewn lleoliadau

62 Mae pob un o'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn darparu hyfforddiant ym modiwlau sylfaenol y Cyfnod Sylfaen. Maent yn aml yn cyflwyno'r modiwlau hyn i ysgolion a lleoliadau gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'n well gan lawer o ymarferwyr gael hyfforddiant ar wahân i staff ysgol, gan eu bod yn teimlo, lle mae hyfforddiant yn cael ei gynnal gyda'i gilydd, bod staff ysgol yn cymryd yr awenau ac nid ydynt yn aml yn hyderus i gyfrannu ochr yn ochr â chydweithwyr mwy cymwys. Yn ychwanegol, ceir tensiwn lle mae ysgolion yn rhyddhau athrawon o'u rôl ac yn eu hariannu i fynychu cyrsiau, tra bod ymarferwyr yn y sector nas cynhelir yn aml yn mynychu hyfforddiant heb dâl gan na all lleoliadau fforddio ariannu oriau ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon ymgynghorol yn ystyried hyn wrth ddarparu hyfforddiant, ond ceir manteision yn sgil cyflwyno rhywfaint o'r hyfforddiant i'r ddau sector gyda'i gilydd. Er enghraifft, mae'n codi proffil lleoliadau ac yn rhoi cyfleoedd da i ymarferwyr rannu eu gwybodaeth am ddatblygiad y plentyn a rhoi enghreifftiau o sut maent yn hyrwyddo dysgu gweithredol. Mewn un awdurdod lleol, mae athrawon ymgynghorol wedi defnyddio'r cyfleoedd hyn yn dda i annog staff ysgol i fod yn llai ffurfiol gyda phlant ifanc iawn a mabwysiadu rhai o'r arferion y maent yn eu gweld mewn lleoliadau. Canfu ymarferwyr mewn awdurdod lleol arall fod hyfforddiant ar y cyd yn hynod effeithiol o ran gwella pontio rhwng ysgolion a lleoliadau ar gyfer plant.

63 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae hyfforddiant wedi cael ei addasu i adlewyrchu newidiadau yn arfer y Cyfnod Sylfaen wrth iddi ddatblygu. Mae rhai ymarferwyr a gafodd yr hyfforddiant pan gafodd ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i ddechrau, wedi mynychu modiwlau eto yn fwy diweddar i wneud yn siŵr eu bod yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn unol â syniadau presennol. Mae'r cyfle i adfywio'r

hyfforddiant yn fuddiol i ymarferwyr. Fe wnaeth hyfforddiant cychwynnol ganolbwyntio'n fawr ar drefniadaeth y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae mwy o ffocws ar safonau mewn hyfforddiant mwy diweddar. Mae bron pob lleoliad yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant ac yn gallu rhoi enghreifftiau o'r modd y mae wedi newid eu harfer. Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf ynghylch sut maent yn trefnu'r amgylchedd a chyflwyno gweithgareddau newydd. Ychydig iawn o ymarferwyr sy'n gweld cyswllt clir rhwng gwella darpariaeth a safonau gwell. Mae athrawon ymgynghorol yn gwirio'n rheolaidd a yw syniadau o hyfforddiant yn cael eu rhoi ar waith, ond anaml y maent yn herio lleoliadau i ddangos pa wahaniaeth y mae hyfforddiant yn ei wneud i gynnydd a safonau plant.

64 Yn ychwanegol i fodiwlau'r Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn darparu sesiynau hyfforddi pwrpasol ar faterion cyffredinol sy'n gysylltiedig â lleoliadau neu fentrau lleol neu genedlaethol. Pan fydd hyfforddiant yn hynod lwyddiannus, mae'n ymateb i anghenion lleoliadau unigol neu grwpiau o leoliadau. Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i leoliadau nodi anghenion hyfforddi pan fyddant yn arfarnu rhaglenni hyfforddi. Mae'r symud i weithio trwy gonsortia wedi golygu nad oes digon o gyfleoedd i nodi anghenion hyfforddi i rai lleoliadau ac mae hyfforddiant yn tueddu i fod yn generig. Mae hyn oherwydd mai megis dechrau cael eu datblygu y mae trefniadau newydd i gefnogi lleoliadau ac mae hyfforddiant sydd wedi'i drefnu gan swyddog hyfforddi a chymorth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y consortiwm wedi'i gynllunio i fodloni anghenion cyffredinol ysgolion a lleoliadau. Pan fydd gweithio trwy gonsortia yn fwy sefydledig, mae athrawon ymgynghorol yn mynd i'r afael ag anghenion unigol trwy gymysgedd o grwpiau hyfforddi a rhwydwaith ac mae hyn yn sicrhau bod lleoliadau'n cael cymorth priodol i fodloni anghenion a nodwyd.

65 Dywed llawer o ymarferwyr fod hyfforddiant yn fwy effeithiol pan fyddant yn gallu mynychu gyda chydweithwyr eraill o'u lleoliad ac yn gallu trafod sut gallent roi'r cyngor ar waith. Dywed rhai ymarferwyr fod cael hyfforddiant, cael 'gwaith cartref' a bod gofyn iddynt adrodd yn ôl ar lwyddiant hyn yn fodel sydd wedi gweithio'n dda iddynt. Mae'r model hwn yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymateb i'r hyfforddiant ac yn arbrofi â rhai o'r syniadau.

66 Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos ble mae hyfforddiant yn llwyddiannus o ran gwella darpariaeth ac o ran ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

**Mae proffil uchel i hyfforddiant yng Ngheredigion**

**Cyd-destun**

Mae awdurdod lleol Ceredigion yn ariannu 30 o leoliadau nas cynhelir ar gyfer addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau a ariennir yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae dau athro ymgynghorol amser llawn, y mae'r naill a'r llall yn siarad Cymraeg yn rhugl, yn cefnogi'r lleoliadau hyn.

**Strategaeth**

Mae proffil uchel i hyfforddiant ar gyfer lleoliadau yn yr awdurdod lleol. Gwneir defnydd da o ddeilliannau o arolygu a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i nodi hyfforddiant ar gyfer pob lleoliad.

**Camau gweithredu**

Mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'i hyfforddiant yn ofalus i sicrhau ei fod yn ei dargedu'n dda i wella arfer a'i fod yn darparu gwerth am arian. Yn ychwanegol i hyfforddiant ar fodiwlau'r Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant ad hoc, fel crefftau Nadolig, mae'r awdurdod lleol wedi blaenoriaethu rhai mentrau hyfforddi pwysig ar gyfer lleoliadau dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r mentrau hyfforddi pwysig hyn yn ymateb i anghenion canfyddadwy yn yr awdurdod lleol neu i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae wedi blaenoriaethu gwella medrau siarad a gwrando plant a'u medrau darllen ac ysgrifennu cynnar. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at roi mwy o ffocws i hyfforddiant arbenigol i gynorthwyo plant â phroblemau lleferydd ac iaith.

Caiff hyfforddiant yn aml ei drefnu oherwydd pryderon sy'n cael eu codi gan ymarferwyr, fel rheoli ymddygiad. Ymatebodd yr awdurdod lleol i'r angen hwn trwy hyfforddi ei athrawon ymgynghorol i gyflwyno rhaglen hyfforddi a brynir i bob lleoliad.

Yn aml, mae hyfforddiant yn darparu adnoddau i ymarferwyr eu defnyddio yn y lleoliad ac mae athrawon ymgynghorol yn monitro'r defnydd a wneir ohonynt ar ymweliadau neu'n cyflwyno hyn mewn hyfforddiant o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, yn ystod hyfforddiant rhifedd diweddar, cafodd ymarferwyr set o offer mathemategol. Gofynnodd tiwtoriaid iddynt fynd yn ôl ymhen pythefnos i esbonio sut ymatebodd y plant a beth ddysgodd y plant o ddefnyddio'r offer.

Mae hyfforddiant yn orfodol ac mae'r awdurdod lleol yn monitro presenoldeb mewn hyfforddiant yn drylwyr. Mae'r awdurdod lleol yn ariannu costau staff llanw ac yn aml yn hwyluso cludiant.

Mae angen achos busnes gyda meini prawf llwyddiant priodol ar gyfer unrhyw fenter hyfforddi bwysig, fel y fenter ymddygiad. Mae'r awdurdod lleol yn arfarnu mentrau hyfforddi sylweddol yn ofalus trwy bethau fel monitro arfer mewn lleoliadau o ddydd i ddydd, dadansoddi data hyfforddiant ac arolygu a chasglu barn ymarferwyr.

**Deilliannau**

Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant da yn addysgeg y Cyfnod Sylfaen. Mae'r deilliannau o arolygu, sy'n gadarnhaol ar y cyfan, yn adlewyrchu hyn. Mae gan bob lleoliad o leiaf un aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi mewn strategaethau rheoli ymddygiad a darparu cymorth ar gyfer anawsterau lleferydd ac iaith. O ganlyniad, mae angen cymorth ychwanegol ar lai o blant ac mae ymarferwyr yn well o ran nodi anghenion dysgu ychwanegol plant yn gynnar.

**Mae Powys yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a gwybodaeth am arolygu i nodi anghenion hyfforddi ar gyfer lleoliadau**

**Cyd-destun**

Mae'r awdurdod lleol yn ariannu 70 o leoliadau nas cynhelir ar gyfer addysg ran-amser i blant tair oed. Mae rhai lleoliadau a ariennir yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae tri athro ymgynghorol amser llawn, y mae un ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, yn

cefnogi mwyafrif helaeth y lleoliadau hyn ac yn cyflwyno'r holl hyfforddiant yn yr awdurdod lleol. Mae tri athro ymgynghorol Dechrau'n Deg yn cefnogi rhai lleoliadau, sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

**Strategaeth**

Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd da o ddeilliannau o arolygiadau, Adroddiad Blynyddol PAEM a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i nodi hyfforddiant ar gyfer pob lleoliad. Gwneir defnydd effeithiol o hyfforddiant clwstwr a Grwpiau Rhwydwaith Proffesiynol wrth gyflwyno hyfforddiant a datblygiad ar draws yr awdurdod. Mae'n mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â sefydliadau eraill fel Mudiad Meithrin, Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru a Llaw yn Llaw i nodi anghenion hyfforddi yn y dyfodol a rhannu amserlenni hyfforddiant.

**Camau gweithredu**

Mae'r athrawon ymgynghorol yn cyflwyno hyfforddiant ar draws saith clwstwr o leoliadau bob hanner tymor. Maent yn rhoi sylw da i'r prif negeseuon o adroddiadau arolygu wrth gynllunio'r amserlen hyfforddiant i ddarparu cymorth targedig i wella arfer a deilliannau ar draws eu lleoliadau. Yn ychwanegol i hyfforddiant am fodiwlau'r Cyfnod Sylfaen, mae'r athrawon ymgynghorol yn blaenoriaethu mentrau hyfforddi allweddol ar gyfer lleoliadau i ymateb yn uniongyrchol i anghenion canfyddadwy neu i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, dros y tair blynedd ddiwethaf, maent wedi blaenoriaethu darpariaeth barhaus, amser byrbryd, dysgu yn yr awyr agored, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant a rôl yr arweinydd.

Yn aml, mae hyfforddiant yn darparu adnoddau i ymarferwyr eu defnyddio yn y lleoliad, ac mae athrawon ymgynghorol yn monitro'r defnydd a wneir ohonynt ar ymweliadau dilynol ac yn ychwanegu at bortffolio arfer orau i rannu arfer dda a welwyd mewn diweddariadau hyfforddiant. Er enghraifft, yn ystod hyfforddiant diweddar ynghylch pontio, gofynnodd i ymarferwyr ddatblygu taflenni syml ar bontio. Wedyn, rhannwyd adborth ar ba mor llwyddiannus fu'r rhain yn tawelu meddwl rhieni a phlant ac o ran rhannu gwybodaeth a datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gydag ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol yn monitro presenoldeb mewn hyfforddiant. Mae'n rhaid i ymarferwyr lenwi taflen arfarnu hyfforddiant, ac mae'r athrawon ymgynghorol yn craffu ar y rhain yn ystod ymweliadau â lleoliadau yn rheolaidd.

Mae'r awdurdod lleol yn arfarnu effaith mentrau hyfforddi sylweddol yn drylwyr trwy bethau fel monitro arfer o ddydd i ddydd mewn lleoliadau, dadansoddi data hyfforddiant ac arolygu a chasglu barn ymarferwyr. Mae athrawon ymgynghorol yn cofnodi effaith arsylwedig yr hyfforddiant ac yn gosod targedau ar gyfer ffocws eu hymweliad nesaf yn effeithiol.

**Deilliannau**

Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu hyfforddi'n dda yn addysgeg y Cyfnod Sylfaen, ac o ganlyniad, maent yn teimlo'n fwy hyderus ac mewn sefyllfa well i gynnig gwasanaeth cyfoes a mwy proffesiynol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cymryd mwy o ran mewn hunanarfarnu ac mae ganddynt ddealltwriaeth gliriach ohono a'i

gyswllt â chynllunio gwelliant.  Mae trefniadau pontio a gwelliannau mewn perthnasoedd gweithio agosach rhwng lleoliadau ac ysgolion yn arwain at rannu adnoddau ac arbenigedd.  Mae'r gwelliant yn neilliannau plant a'r sylwadau cadarnhaol mewn adroddiadau arolygu diweddar yn dangos effaith hyn.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae’r canfyddiadau a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ymweliadau â lleoliadau nas cynhelir
- cyfweliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol
- cyfweliadau â chynrychiolwyr consortia rhanbarthol
- cyfweliadau ag athrawon ymgynghorol
- craffu ar ystod o ddogfennau gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, gan gynnwys cynlluniau busnes, rhaglenni a deunyddiau hyfforddi, polisïau a gweithdrefnau hawl gynnar ac asesiadau nodi anghenion
- craffu ar ystod o ddogfennau gan leoliadau, gan gynnwys adroddiadau hunanarfarnu, cynlluniau gweithredu, nodiadau ymweliadau gan athrawon ymgynghorol a chofnodion hyfforddi
- adroddiadau arolygu er 2010

Dyma oedd y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r astudiaeth hon:

- Meithrinfa Ddydd Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr
- Cylch Chwarae Busy Bees, Sir y Fflint
- Meithrinfa Ddydd Busy Bees, Pen-y-bont ar Ogwr
- Cylch Meithrin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
- Mes Bach, Little Acorns Ceredigion
- Cylch Chwarae Giggles, Sir Ddinbych
- Cylch Chwarae Greenfield, Sir y Fflint
- Cylch Chwarae Gungrog Happitots, Powys
- Meithrinfa a Chylch Chwarae Little Lambs, Conwy
- Cylch Meithrin Pili Pala, Caerdydd
- Cylch Chwarae Playdays, Sir Ddinbych
- Cylch Chwarae Lôn Ysgol, Conwy
- Treowen 3 Plus, Powys
- Cylch Chwarae Tŷ Du, Casnewydd

Dyma oedd yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r astudiaeth hon:

- Caerdydd
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Casnewydd
- Powys
- Wrecsam [7]

[7] Ymwelwyd fel rhan o astudiaeth i ddatblygiad Cymraeg ail iaith yn Wrecsam, Haf 2014

Dyma oedd yr holl gonsortia rhanbarthol yr ymwelwyd â nhw neu y cysylltwyd â nhw dros y ffôn fel rhan o'r astudiaeth hon:

- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru (CSCJES)
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)
- Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
- Consortiwm Gogledd Cymru (GwE)

## Atodiad 2: Trefniadau presennol ar gyfer cefnogi a herio lleoliadau nas cynhelir (Tachwedd 2014)

Yng Nghonsortiwm Gogledd Cymru (GwE) ac Ein Rhanbarth ar Waith (ERW), mae awdurdodau lleol yn cyflogi athrawon ymgynghorol yn uniongyrchol ac yn goruchwylio cymorth a hyfforddiant ar gyfer lleoliadau. Mae awdurdodau lleol Powys, Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro, Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn yn gweinyddu Grant y Cyfnod Sylfaen eu hunain ac yn cyflogi'r athrawon ymgynghorol yn uniongyrchol.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) yn gweinyddu Grant y Cyfnod Sylfaen ac yn cyflogi athrawon ymgynghorol ar gyfer awdurdodau lleol Torfaen, Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili a Threfynwy.

Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru (CSCJES) yn gweinyddu Grant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cyflogi athrawon ymgynghorol i gefnogi lleoliadau yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gan yr awdurdodau lleol eraill yn y consortiwm drefniadau gwahanol. Er enghraifft, mae Gwasanaethau Addysg ym Mro Morgannwg a Chaerdydd yn parhau i weinyddu Grant y Cyfnod Sylfaen ac yn cyflogi athrawon ymgynghorol yn uniongyrchol. Yn Rhondda Cynon Taf, mae adran Gwasanaethau Plant yr awdurdod yn gyfrifol am y sector nas cynhelir, tra bod adran Adfywio Cymdeithasol yr awdurdod lleol ym Merthyr Tudful yn cymryd cyfrifoldeb amdano.

## Atodiad 3: Rhestr wirio ymweliadau athrawon ymgynghorol

Mae athrawon ymgynghorol yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'u hamser yn ystod ymweliadau pan fyddant:

| | √ |
|---|---|
| Yn meddu ar ddiben a ffocws clir, sy'n cael ei rannu gyda'r lleoliad cyn yr ymweliad | |
| Yn cynllunio amseriad ymweliadau gyda'r lleoliad i wneud yn siŵr ei bod yn gyfleus ac yn lleihau aflonyddwch | |
| Yn sicrhau mai'r prif bwysigrwydd yw'r safonau a gyflawnir gan blant | |
| Monitro, arfarnu ac adolygu'r meysydd a nodwyd ar gyfer gweithgarwch dilynol mewn ymweliadau blaenorol | |
| Yn cael eu paratoi'n dda a bod ganddynt enghreifftiau a syniadau ymarferol i'w rhannu | |
| Yn gweithio gyda phlant yn y lleoliad i fodelu addysgu a dysgu da | |
| Yn sicrhau bod ymweliadau'n cynnwys cymysgedd o wahanol fathau o gymorth a bod cydbwysedd rhwng edrych ar hunanarfarnu a chynllunio, modelu gweithgareddau a darparu cyngor am blant unigol | |
| Yn gosod tasgau'n rheolaidd i ymarferwyr eu cwblhau rhwng ymweliadau a monitro pa mor dda y caiff y dasg ei chwblhau, er enghraifft defnyddio adnoddau rhifedd newydd | |
| Yn arfarnu cynnydd ers yr ymweliad diwethaf | |
| Yn darparu adborth defnyddiol ac addysgiadol adeg yr ymweliad, sy'n dangos beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddo'i wella | |
| Yn asesu anghenion hyfforddi ymarferwyr | |

Yn ychwanegol, cynhelir ymweliadau yn rheolaidd ac mae lleoliadau'n parhau i gael lefel briodol o gymorth yn ystod y tymor pan na fydd ganddynt unrhyw blant a ariennir.

O Ebrill 2015, bydd angen i athrawon ymgynghorol ystyried sut i gefnogi lleoliadau i wneud y defnydd gorau o Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar hefyd.

## Geirfa

**Y Cyfnod Sylfaen** Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng **Nghymru**, mewn ysgolion a lleoliadau a gynhelir ac ysgolion a lleoliadau nas cynhelir

**Dechrau'n Deg** Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser am ddim i blant dwy oed i helpu eu paratoi ar gyfer yr ysgol. Maent hefyd yn darparu lefelau cynyddol o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007.

**Ymarferwyr** Pobl sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn lleoliadau

**Consortia rhanbarthol** Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ran grŵp o awdurdodau lleol

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Jane Rees | Awdur yr adroddiad cylch gwaith/tîm yr arolwg |
| Bev Jenkins | Tîm yr arolwg |
| Sue Davies | Tîm yr arolwg |